

ADDOLI



WORSHIP & TEACHING

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



WORSHIP & TEACHING

Addoli

PAM?

Dywedodd Iesu fod holl addysg yr Hen Destament yn sefyll ar ddwy egwyddor arweiniol: caru Duw a charu dy gymydog. Pan fyddwn ni'n sôn am ofalu am y greadigaeth, rydym yn gweld yr un sylfeini deul. Gofalu am helynt y blaned yw cariad at ein cyd-ddyn, rheiny sy'n fyw yn awr a chenedlaethau'r dyfodol, a chariad at ein cyd-greaduriaid ymhob cynefin ac ecosystem amrywiol. Ond mae hefyd yn gariad at ein creawdwr. Os ydym yn caru Duw, yna byddwn yn caru'r hyn y mae Duw wedi ei greu. Rydym yn mynegi ein haddoliad drwy fynd ati'n ostyngedig i olrhain ac atsain y sancteiddrwydd dwyfol sy'n cael ei arddangos yn y drefn a grewyd ganddo a, phan ddaw i'n rhan i wneud hynny, ei ddal gyda gofal gwerthfawr yn ein dwylo. I bob Cristion, mae'n rhaid i ofalaeth am yr amgylchedd fod yn fater addoli sy'n effeithio ar ein bywydau ac ar ein cyd-ddefosiwn.

Ond mae rheswm mwy pragmataidd hefyd am fynd i'r afael â'n haddoli corfforaethol. Mae Cristnogion yn dysgu cymaint o ddiwinyddiaeth o ganeuon a gweddïau. Mae addoli'n ffurfiant, nid yn addoliad yn unig. Mae'r hyn a wnawn, a ddywedwn ac a ganwn ni'n hysbysu'r pethau a gredwn. Mae ailadrodd gweddïau a gweithredoedd yn dod yn fantra i ni. Mae alawon a rhythmâu sy'n ein cyfareddu'n ffurfio syniadau yn ein meddyliau. A thrwy rym yr awgrym, dydy'r pethau sydd heb eu crybwyll yn ein haddoliad ddim yn rhan o'n hunaniaeth a'n pwrpas craidd. Os yw ein heglwysi i fod yn eco-eglwysi sy'n llawn o eco-Gristnogion, yna mae'n rhaid i ni ganu, dweud a gweithredu ein cariad at Dduw a'r greadigaeth gyfan. Ac os ydym yn addoli go iawn, dylai'r pethau hyn i gyd ddod yn naturiol iawn i ni.

SUT?

EI WNEUD YN RHYWBETH BWRIADOL

Mae nifer gynyddol o adnoddau – gweddïau, caneuon a gweithgareddau – ar gael ar gyfer gweithredoedd eco-addoli. Chwiliwch amdany'n nhw a, phan fyddwch chi'n eu defnyddio nhw, byddwch yn glir iawn yn eich cyflwyniad a'ch esboniad. Os ydych chi'n gofyn i bobl wneud rhywbeth ychydig bach yn wahanol, gall fod yn bwerus iawn, ond yn aml iawn mae'n syniad da i roi rhywbeth mwy cyfarwydd o'i flaen ac ar ei ôl – rhywbeth fel hoff emyn neu gân.



WORSHIP & TEACHING

Addoli

EI WNEUD YN BETH ARFEROL

Yn bwysicach na hynny efallai, dewiswch ganeuon a gweddïau ar gyfer eich repertoire rheolaidd sy'n mynegi golwg iach ar y greadigaeth a'n lle a'n rôl ninnau oddi mewn iddi. Gwnewch y themâu hyn yn rhan o'ch geirfa addoli 'arferol' drwy eu cynnwys nhw ymysg eraill. Os gallwch ganfod caneuon, er enghraifft, sy'n swnio yn union fel y rhai y byddwch yn eu canu fel arfer, mae'n debyg y byddan nhw'n ffitio'n braf a diffwdan. Ac ystyriwch fod ychydig yn ddirugaredd a gwrthod yr eitemau hynny (hyd yn oed hen ffefrynnau) sy'n rymus ond sydd ddim yn ymdrin â'r stori gywir.

EI WNEUD YN GLUDADWY

Meddyliwch am eich amgylchedd addoli eich hun. Yn aml iawn rydym wedi ein hamgylchynu gan seti, uwchdaflunwyr, pianos ac efallai waith celf creadigol mewn tapestri neu wydr. Ond mae gennym noddfa arall, yn union y tu allan i ddrysau'r eglwys fel arfer, lle gallem ni gasglu. Gadewch i natur fod yn awditoriwm. Ond cofiwch ddewis ffyrdd o addoli sy'n briodol i'r amgylchedd hwnnw – yn syml iawn, allwch chi ddim gweithredu tu allan fel y byddech chi dan do.

RHOI BLAS CYFOETHOG IDDO

Os byddwn ni'n cymryd y salmau fel ein hesiampl, maen nhw'n llawn o ganmoliaeth, galaru, cyfaddef, cofio, gobaith a mwy. Mae eco-addoli'n cymryd arno'r holl flasau hyn. Gallwch edrych hefyd am ffyrdd o ymdrin â themâu creu ac ecoleg yn yr enydau 'addoli' hynny sy'n gyffredin ar draws cymaint o draddodiadau: ymgasglu, canmol, clywed y gair, datganiadau credoaid o ffydd, a mwy.

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae Resound Worship wedi cynhyrchu canllaw astudio sy'n archwilio'r berthynas rhwng addoli a gofalu am y greadigaeth o safbwynt Beiblaidd: <https://www.resoundworship.org/store/product/doxecology-study-guide>



WORSHIP & TEACHING

Addoli

ADNODDAU'R WE

Dyma rai casgliadau o ddolenni at nifer o adnoddau eraill:

<https://www.climatesunday.org/service-resources>

<https://worship.calvin.edu/resources/resource-library/worship-resources-for-creation-care/>

<https://www.faraday.cam.ac.uk/churches/church-resources/posts/resources-for-outdoor-worship/>

<http://www.doxecology.org> – mawlecoleg. Mae Resound Worship wedi creu albwm o ganeuon addoli cyfoes sy'n cyfuno canmol (mawlgan) ac ecoleg – felly 'mawlecoleg' (doxecology). Gallwch wrando ar yr holl ganeuon a lawrlwytho'r taflenni cordiau yn rhad ac am ddim o'r wefan.

Mae <https://www.engageworship.org/> yn cynnig adnoddau addoli creadigol, sy'n cynnwys nifer ar gyfer addoli yn yr awyr agored.